



Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg – Sir y Fflint

2012-2015

Gweledigaeth a nodau ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Sir Y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint am gynyddu'r nifer o siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg o fewn ei ffiniau, er mwyn anelu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i fod yn Sir a gwlad cynyddol ddwyieithog.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymrwmo i gefnogi, ehangu a hybu Addysg Cyfrwng Cymraeg o fewn ei holl gymunedau, gan gynyddu'r nifer a'r canran o blant sy'n derbyn addysg Cyfrwng Cymraeg yn unol â bwriadau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, sef i sicrhau dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. yn gwbl rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg).

[Mae Cyngor Sir y Fflint yn deall ac yn derbyn diffiniad y ddogfen Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg tud.8 2.12, 2.13 ac 2.14- 2.18, gweler atodiad 1].

Bydd Cyngor Sir y Fflint, yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhanddeiliaid ac darparwyr eraill: -

- sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth lawn i rieni o fanteision addysg Cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn Sir y Fflint; gan nodi'n glir
 - (a) nad oes rhaid i'r rhieni allu siarad Cymraeg er mwyn i'w plant allu mateisio ar y cyfle hwn
 - (b) mai dim ond wrth dderbyn addysg mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg benodol yn Sir y Fflint y bydd y plentyn yn dod yn ddysgwr cwbl ddwyieithog
 - (c) fod manteision deallusol i ddysgwr sy'n gallu defnyddio dwy iaith gyda'r un rhuglder
- gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu'n sylweddol y nifer o blant sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion penodedig Cyfrwng Cymraeg presennol o fewn y Sir (5 cynradd ac 1 uwchradd yn 2011) gan ehangu hyn drwy:
 - (a) ehangu ar y ddarpariaeth h.y. ysgolion Cyfrwng Cymraeg o'r Meithrin i addysg ôl 14, ôl 16.
 - (b) sicrhau systemau trochi mwy effeithiol :-
 - i gynyddu niferoedd B7 o 100% erbyn 2013 ;
 - i gynyddu niferoedd rhwng Bl.2 i Bl.6 drwy sefydlu uned drochi ar gyfer disgyblion cynradd.
- gweithio gydag ysgolion i sefydlu cyfundrefn DPP ymysg y gweithlu addysg a fydd yn cynyddu'r nifer o ymarferwyr posib o fewn y sector Cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn hefyd yn sicrhau:-
 - cyfle cyfartal i HMS i'r ymarferwyr o fewn y sector Cyfrwng Cymraeg
 - cyfoeth arbenigedd mewn meysydd cwricwlaidd a rheolaethol i gefnogi'r datblygiad mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg
- gweithio gydag ysgolion i godi safonau, yn unol â'r Rhagledd Llythrennedd Genedlaethol a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

- yn y sector Cyfrwng Cymraeg (Cymraeg/Mamiaith a phynciau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y cwricwlwm);
- yn y sector Cyfrwng Saesneg (lle dysgir a hyrwyddir y Gymraeg fel ail iaith).
- adnewyddu'r cytundeb partneriaeth Awdurdod Lleol/ysgolion i osod blaenoriaethau clir ar gyfer addysg Gymraeg a'r rolau y gall yr holl randdeiliaid eu cyflawni i ddatblygu'r ddarpariaeth.
- sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth lawn o natur addysg Cyfrwng Cymraeg ymysg aelodau etholedig a swyddogion y sir, penaethiaid a llywodraethwyr (ysgolion cyfrwng Saesneg yn ogystal â chyfrwng Cymraeg) – a bod yr un neges yn ymdreiddio drwy holl waith y cyngor
- warchod ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol, gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiad Moderneiddio Ysgolion yn fuddiol i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Gweler atodiad 2)			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Amserlen ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol	Ch. Adroddiad cynnydd
1.1 Cynyddu nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p>Caiff 5.7% o blant saith oed yn Sir y Fflint eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.</p> <p><i>Cydnabyddir bod canran y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy isel a bod angen gweithredu i gynyddu hyn drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau amrywiol. Bydd angen fwy o anogaeth i rieni ymgysylltu'n gynnar â darparwyr darpariaeth cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn dyblu'r % erbyn 2015.</i></p> <p><i>Cydnabyddir bod angen i'r ddarpariaeth lleoedd ysgol fod yn hygyrch, gan ddarparu lleoedd ychwanegol lle nad oes darpariaeth yn bodoli.</i></p> <p><i>Cydnabyddir hefyd bod angen codi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg drwy:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • ddeunyddiau hyrwyddo. • sicrhau bod y wybodaeth hanfodol ar gael i Aelodau Etholedig er mwyn iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg. • Gweithio mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith i gynhyrchu taflen amlasiantaeth sy'n cyfleu 	<p><i>Trefnu gweithdy i aelodau etholedig i rannu gwybodaeth am:-</i></p> <p><i>a) addysg cyfrwng Cymraeg</i></p> <p><i>b) Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg</i></p>	

	<p><i>manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni yn y gymuned ehangach, ac nad yw eu gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad ar gyfer dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.</i></p> <p><i>Nid oes unrhyw strategaeth marchnata wedi'i thargedu at blant cyn oedran ysgol. (Gweler cynlluniau o dan amcan 1.7).</i></p>	<p><i>(Ionawr 2012) Hysbysu Aelodau yn flynyddol o gynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</i></p> <p><i>Cynnwys Aelodau mewn penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwell addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint.</i></p>	
<p><i>1.2 Mabwysiadu prosesau systematig o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni.</i></p>	<p><i>Mae mwyafrif y gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu gan Feithrin neu Feithrin Mwy. Ar hyn o bryd mae 7 cylch Meithrin yn darparu gofal sesiynol am 2.5 awr. O'r rhain, mae 5 darparwr Hawl Bore Oes a 2 yn darparu Dechrau'n Deg. Mae 6 o'r cylchoedd yn cynnig darpariaeth helaethach sy'n cael ei galw'n Meithrin Mwy. Mae Mudiad Meithrin yn darparu'r gofal am weddill yr oriau. Ar hyn o bryd, mae 5 lleoliad cyfrwng Cymraeg cofrestredig sy'n darparu lleoedd wedi'u hariannu ar gyfer plant 3 oed yn Sir y Fflint - Cylch Meithrin Terrig, Cylch Meithrin Y Fflint, Cylch Meithrin Yr Wyddgrug, Cylch Chwarae Treffynnon a Chylch Meithrin Mornant.</i></p> <p><i>Hyd yn hyn, mae pob cais am le wedi'i ariannu mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg wedi cael ei fodloni.</i></p>	<p><i>Ar sail canlyniad yr arolwg diweddaraf o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, byddai angen ateb unrhyw ddiffyg lleoedd yn y dyfodol trwy drafod cynyddu nifer y lleoedd â'r grwpiau cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys adolygu adeiladau, lefelau staffio a chofrestru gydag AGGCC. Hefyd, gall gynnwys sefydlu</i></p>	

	<p><i>Cynhaliwyd yr arolwg mwyaf diweddar o alw ar gais ORS yn Ebrill 2009. Dyma arolwg o rieni â phlant 2 oed ac iau.</i></p> <p><i>Roedd 22% o'r ymatebwyr yn debygol o anfon eu plant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol ac roedd 33% yn debygol o droi ati os oedd o fewn 2 filltir o'u cartref.</i></p> <p><i>Roedd y prif ardaloedd a roddodd ymateb cadarnhaol yn yr ardaloedd hynny lle mae darpariaeth eisoes, ond mae rhai ymatebwyr mewn ardaloedd sydd heb eu gwasanaethu'n dda gan ddarpariaeth e.e. ardal Shotton. Byddai hyn yn awgrymu'r angen am ddarpariaeth ychwanegol yn yr ardal honno, a fyddai'n cyfateb i'r newidiadau a fydd yn cael eu hysgogi gan Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint.</i></p>	<p><i>darpariaeth hollol newydd mewn lleoliad daearyddol arall.</i></p> <p><i>Cynllunio a datblygu addysg feithrin a statudol cyfrwng Cymraeg yn ardal Shotton, Glannau Dyfrdwy. (Medi 2014)</i></p> <p><i>Cynnal ymchwil pellach i'r 'galw am addysg cyfrwng Cymraeg' ar y cyd, lle bynnag y bo'n bosibl, ag unrhyw fenter gan Lywodraeth Cymru yn y maes. (2012 / 2013)</i></p> <p><i>Ceisio cyfleoedd am wella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar sail canfyddiadau'r ymchwil uchod. (ee ardal Bwcle) (2013 ymlaen)</i></p>	
--	--	--	--

<p>1.3 Sicrhau bod cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p><i>Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'i seilio ar ostwng nifer y lleoedd gwag a chynyddu effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Dylid cynnal y ddarpariaeth mewn ysgolion presennol gyda buddsoddiad cyfalaf i wella amgylcheddau dysgu.</i></p> <p><i>Darpariaeth ychwanegol, lle nodwyd angen, all fod i drosglwyddo rhywfaint o'r lleoedd sy'n cael eu defnyddio yn y sector cyfrwng Saesneg i'w defnyddio mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, efallai o dan reolaeth y ddarpariaeth leol bresennol. Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint yn darparu ar gyfer uno ysgolion, a rhyddhau rhai cyfleusterau presennol.</i></p> <p><i>Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint yn: -</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>(i) Diogelu holl ysgolion Cymraeg (cynradd ac uwchradd)</i> <i>(ii) Defnyddio'r ddarpariaeth bresennol i gynyddu'r ganran Addysg cyfrwng Cymraeg</i> <i>(iii) Diogelu darpariaeth newydd mewn adeiladau presennol ac adeiladau newydd</i> <p><i>Mae cyflwyno cynigion ar gyfer y rhaglen uno a rhyddhau adeiladau ysgolion o ganlyniad yn rhan o raglen Sir y Fflint, ac maent yn cael eu hariannu'n rhannol gan ffrwd ariannu cyfran 3 LIC.</i></p> <p><i>Bydd asesiad o effaith y Gymraeg, a fydd yn cynnwys arfarniad o nifer y lleoedd presennol mewn darpariaeth ac ymateb i'r angen am ddarparu lleoedd mewn ardaloedd sydd heb ddarpariaeth ar hyn o bryd, yn cyd-fynd â chynigion unigol sy'n cael eu cyflwyno i LIC am gyllid o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.</i></p>	<p><i>Bydd camau gweithredu i gyflawni darpariaeth ychwanegol yn cynnwys:-</i></p> <p><i>Paratoi ar gyfer darpariaeth newydd yn 2012-13 yn barod ar gyfer dechrau yn 2014.</i></p>	
---	--	--	--

	<i>Ni wnaed cyhoeddiadau ariannu Ysgolion yr 21ain Ganrif eto ond dylent ddod ar waith ar ôl 2014.</i>		
1.4 Sicrhau gweithio cydweithredol drwy gonsortia.	<p><i>Mae penaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn awyddus i weithio'n rhanbarthol.</i></p> <p><i>Ar hyn o bryd, mae gan Mudiad Meithrin gynrychiolwyr ar is-grŵp y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac ar grŵp rhianta a strategaeth y Blynyddoedd Cynnar.</i></p> <p><i>Mae Mudiad wedi mynegi eu parodrwydd i weithio'n rhanbarthol a gall werthfawrogi'r manteision a ddaw o rannu arfer orau ag Awdurdodau cyfagos.</i></p> <p><i>Bydd y dull Teuluoedd yn Gyntaf sy'n dod i'r amlwg yn annog ac yn galluogi mwy o ymwneud trawsffiniol.</i></p>	<i>Gweithgor o fewn y Fforwm i gyfarfod i baratoi strategaeth i weithio ar y cyd ag asiantaethau, awdurdodau, consortia etc., sy'n cynnwys pob agwedd ar Addysg Gymraeg (Ebrill 2012)</i>	
1.5 Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau addysg drochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid.	<p><i>Mae darpariaeth drochi eisoes ar waith yn Ysgol Maes Garmon, (Bl. 7). Dyma raglen lwyddiannus ac gallwn ei chynyddu 100%.</i></p> <p><i>Mae hwn yn faes y cydnabyddir bod angen gwella.</i></p>	<i>Datblygu strategaeth a dulliau ymarferol o drochi yn yr iaith Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid. (2012 / 2013)</i>	
1.6 Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.	<p><i>Mae Atodiad 4 yn disgrifio'r cylch gorchwyl ar gyfer y fforwm addysg cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Mae penaethiaid yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a chynrychiolwyr asiantaethau amrywiol gan gynnwys</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <i>Bydd y Fforwm yn sicrhau</i> 	

<p>Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar.</p>	<p><i>Llywodraethwyr, Mudiad Meithrin, y Fenter Iaith a grwpiau buddiant cyfrwng Cymraeg yn aelodau o'r fforwm sydd wedi helpu i ddatblygu strategaeth yr Awdurdod.</i></p> <p><i>Mae'r PPPhI hefyd wedi ymwneud â datblygu'r cynllun gan fod ymrwymiad gan gynllun PPPhI 2011 – 2014 yn "gwneud gwahaniaeth cadarnhaol" i gydnabod a rhoi gwerth ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg ac mae'n ystyriol o hyn wrth gyflwyno'r deilliannau sy'n rhan o'r cynllun.</i></p>	<p><i>cynrychiolaeth o blith penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn datblygiadau gyda swyddogion ac aelodau er mwyn rhannu eu gwybodaeth arbenigol am ofynion i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Bydd y Fforwm yn monitro hynt Cynllun y Gymraeg mewn Addysg Sir y Fflint o ran ei gylch gorchwyl yn Atodiad 4 (unwaith bob tymor ysgol).</i> • <i>Bydd y Fforwm yn sefydlu gweithgorau i weithio'n benodol ar y saith deilliant yn y cynllun strategol.</i> 	
---	---	---	--

		(Chwefror 2012).	
1.7 Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr.	<p><i>Mae'r fforwm wedi cael ac wedi cytuno ar ddogfen 'weledigaeth' a nodau ar gyfer Addysg cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint.</i></p> <p><i>Dylai holl lyfrynnau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu dosbarthu i ysgolion gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.</i></p> <p><i>Mae unrhyw lythyron enghreifftiol am y Cyfnod Sylfaen sydd wedi'u cynhyrchu gan dîm yr ALI gyda'r bwriad o'u defnyddio gyda rhieni, yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.</i></p> <p><i>Mae'r Fenter Iaith a'r Mudiad Meithrin yn llunio llyfryn newydd i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i ddal rhieni'n gynt – maent yn debygol o ddefnyddio ymwelwyr iechyd, clinigau ac ati i hyrwyddo'r opsiwn o droi at addysg cyfrwng Cymraeg yn gynt.</i></p> <p><i>Mae rhieni yn cael canllaw ar Dderbyn i Ysgolion sy'n rhoi gwybodaeth am drosglwyddo o'r Meithrin i Ddosbarth Derbyn. Mae gwybodaeth am drochi uwchradd a manylion cyswllt yn cael eu rhoi yn y Canllaw ar hyn o bryd.</i></p>	<p><i>Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Sir i'r weledigaeth a'r nod (gwanwyn 2012)</i></p> <p><i>Mae agen i'r fforwm ddatblygu strategaeth farchnata effeithiol.</i></p> <p><i>Dogfennau derbyn y dyfodol ar gyfer derbyn yn 2013 yn adlewyrchu'n gliriach y gwahaniaeth rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a gwir ganlyniadau ieithyddol dysgwyr yn y ddau sector.</i> <i>Ffurio gweithgor i:-</i> <i>a) lunio taflen ynghylch manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg</i> <i>b) cytuno ar strategaeth</i></p>	

	<p><i>Caiff gwybodaeth ei hanfon ar hyn o bryd at rieni fel rhan o'r broses dderbyn i ysgolion meithrin a dosbarthiadau derbyn ac nid yw'n cynnwys cymhwysedd ieithyddol tebygol disgyblion o ganlyniad i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Mae'r PPPhI yn cyfrannu at darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr a gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd fod yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael.</i></p>	<p><i>farchnata wedi'i thargedu at blant cyn oedran ysgol c) ffurfio dulliau o gyfathrebu ynghylch manteision addysg cyfrwng Cymraeg (2012 ymlaen)</i></p> <p><i>Sicrhau bod y gwybodaeth derbyniadau i ysgolion yn ddwy ieithiog a bod penaethiaid i gael</i></p> <p><i>(i) Mewnbwn</i></p> <p><i>(ii) Gweld copi terfynol cyn anfon allan i rieni.</i></p> <p><i>Adolygu sut mae gwefan Cyngor Sir y Fflint yn hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen a'r dull o'i gyflwyno mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ac yn rhoi dolenni i wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen – gwirio hygyrchedd drwy bwyntiau</i></p>	
--	--	--	--

		<p><i>gwybodaeth Cyngor Sir y Fflint. (Haf 2012).</i></p> <p><i>I'w gynnwys mewn gwybodaeth yn y dyfodol o 2012-2013 ymlaen.</i></p>	
--	--	--	--

DRAFT

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd – (Gweler atodiad 3)			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Amserlen ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol	D. Adroddiad cynnydd
2.1 Cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith Gyntaf)	<i>Mae holl ddysgwyr YMG yn cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 9. Yn 2011, aseswyd 108 o ddysgwyr. Roedd hon yn nifer uchel o'i chymharu â blwyddyn arferol ac yn cynrychioli 6.6% o ddysgwyr Sir y Fflint. I godi'r ganran hon byddai'n rhaid cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis addysg Gymraeg wrth drosglwyddo i'r sector uwchradd.</i>	<p><i>Camau gweithredu i'w datblygu: -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. Sicrhau bod 100% o ddysgwyr yn parhau i gael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) yn YMG.</i> <i>2. Gweithgareddau i gryfhau'r cysylltiad rhwng YMG ac ysgolion cynradd Cymraeg.</i> <i>3. Parhau i hyrwyddo 'grwpiau dysgwyr' blwyddyn 7.</i> 	
2.2 Datblygu trosglwyddo mwy effeithiol rhwng darpariaeth nas cynhelir a gyllidir i ddarpariaeth ysgol a gynhelir, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4	<p>Beth yw cyfraddau dilyniant rhwng:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; • lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; 		

	<ul style="list-style-type: none"> • Ileoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyeithog a gynhelir; • Ileoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng Cymraeg a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyeithog a gynhelir; • y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2; • Cyfnodau Allweddol 2 a 3 <i>Mae dysgwyr o ysgolion Cymraeg Sir y Fflint yn trosglwyddo i YMG neu Ysgol Glan Clwyd ar gyfer addysg uwchradd. Rhwng 2009 a 2011, trosglwyddodd 97% o ddysgwyr o ysgolion cynradd Cymraeg Sir y Fflint i'r naill ysgol neu'r llall.</i> <i>Mae trefniadau pontio rhwng YMG a chonsortium ysgolion Cymraeg wedi'i datblygu'n dda:-</i> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Estynnir gwahoddiad i ddisgyblion blwyddyn 5 i wario diwrnod yn YMG yn ystod tymor yr haf i gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol, Celf a Dylunio a Thechnoleg.</i> • <i>Gwahoddir disgyblion blwyddyn 5 a 6 i noson agored flynyddol ym mis Hydref.</i> • <i>Yn dilyn ymweliad cwrs preswyl Llangrannog mae disgyblion blwyddyn 6 yn gwario deuddydd yn YMG.</i> 	<p><i>Parhau i ddatblygu gweithgareddau cysylltu o fewn y consortiwm ysgolion cyfrwng Cymraeg.</i></p>	
--	---	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnodau Allweddol 3 a 4 <i>Yn gyffredinol, mae'r holl ddysgwyr a gofrestrodd i gael addysg Gymraeg ar ddiwedd CA3 yn parhau i gael addysg Gymraeg yn CA4. Mae ambell eithriad oherwydd amgylchiadau unigol.</i> 		
2.3 Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog.	<i>Nid yw'n berthnasol, nid oes gan Sir y Fflint ysgolion dwyieithog.</i>		

DRAFFT

Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith (Gweler atodiad 4)			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Amserlen ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol	D. Adroddiad cynnydd
<p>3.1 Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p><i>Mae holl ddysgwyr CA4 YMG yn dilyn Llwybr Dysgu i ennill 5 cymhwyster neu ragor. Yn 2011, llwyddodd 98.9% o'r garfan i gyrraedd trothwy Lefel 1 ac mae dros 90% o'r dysgwyr wedi llwyddo i wneud hynny ym mhob un o'r wyth mlynedd diwethaf. Yn 2011, roedd y 91 o ddysgwyr yn B11 yn YMG yn cynrychioli 5.1% o grŵp blwyddyn Sir y Fflint.</i></p> <p><i>Mae holl ddysgwyr YMG yn dilyn Llwybr Dysgu sy'n cynnwys o leiaf 5 cwrs achrededig. Ni all y nifer gynyddu. Prin yw'r dysgwyr hynny sy'n methu cyrraedd trothwy Lefel 1 e.e. un yn 2011. Mae YMG wedi cyflwyno cyrsiau galwedigaethol newydd yng nghwricwlwm CA4, gan fodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau a chan elwa o waith partneriaeth ac mae'n rhoi cyfleoedd Annog Dysgu i bob dysgwr.</i></p>	<p><i>Sicrhau bod 100% o ddysgwyr YMG yn parhau i gael eu hasesu ar gyfer achrediad drwy gyfrwng y Gymraeg.</i></p>	

<p>3.2 Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009</p>	<p><i>Ceir cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg gan Rwydwaith 14-19 Sir y Fflint yn y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol.</i></p> <p><i>Ychwanegir at ehangder y ddarpariaeth drwy weithio mewn partneriaeth â Choleg Glannau Dyfrdwy.</i></p> <p><i>Mae pob dysgwr ôl-14 yn YMG yn dilyn cwricwlwm sy'n unigryw Gymreig. Mae hyn yn cynrychioli 100% o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ôl-14 yn ysgolion Sir y Fflint. Nifer fechan y dysgwyr sydd dan sylw, ac oherwydd hyn a'r gofyniad i gynnig cyrsiau sy'n cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau, nifer fechan sy'n dilyn rhai cyrsiau. Mae'r ysgol yn arfarnu'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn barhaus ond mae'n dibynnu ar gymorth ariannol gan y CDRhB.</i></p>	<p><i>Parhau i roi cymorth ariannol i addysg Gymraeg o fewn y CDRhB. CDRhB newydd i'w gynhyrchu erbyn Ionawr 2012. Cytundeb partneriaeth ar y cwricwlwm a gynigir erbyn Rhagfyr 2011</i></p>	
<p>3.3 Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.</p>	<p><i>Mae'r holl gyrsiau ôl-16 yn YMG (106 o ddysgwyr ym Medi 2011) yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyrsiau amaethyddiaeth (18 dysgwr yn 2011) ar gael yn y coleg drwy gyfrwng y Gymraeg). Cymorth ariannol ar gael i weithio ar y cyd gan y CDRhB ôl-14.</i></p> <p><i>Caiff cymorth i weithio mewn partneriaeth ag Ysgol Morgan Llwyd ei gynnal drwy DOLEN. Mae Rhwydwaith 14-19 Sir y Fflint yn cyfrannu at y Fforwm drwy'r CDRhB.</i></p>	<p><i>Parhau i ddatblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fwy cynaliadwy.</i></p>	

	<p><i>Mae'r Fforwm yn cefnogi dysgwyr Sir y Fflint i ddilyn cyrsiau cydweithredol drwy gyfrwng y Gymraeg drwy weithio mewn partneriaeth ag Ysgol Morgan Llwyd a Choleg Glannau Dyfrdwy.</i></p>		
<p>3.4 Gweithio drwy Rwydweithiau 14-19 a Fforymau Rhanbarthol 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p><i>Mae Pennaeth YMG yn aelod o'r Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol ac yn arwain y gwaith o weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd o Goleg Glannau Dyfrdwy hefyd yn aelod o'r Fforwm Rhanbarthol.</i></p> <p><i>Mae Prif Ymgynghorydd Dysgu Ysgolion Uwchradd a Phennaeth TGCh yr ALI yn cefnogi'r Rhwydwaith 14-19 ac Is-grŵp Cymraeg 14-19 Sir y Fflint, sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth YMG.</i></p> <p><i>Mae Tîm Gwella Ysgolion Sir y Fflint yn cefnogi YMG drwy gyfres o ymweliadau a chymorth wedi'i gynllunio. Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn rhan o brosiect Hyrwyddo Dwyieithrwydd gyda Llywodraeth Cymru ac mae wedi hyfforddi 11 o staff drwy'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.</i></p>	<p><i>Parhau i gefnogi addysg Gymraeg o fewn y CDRhB. CDRhB newydd i'w gynhyrchu yn Ionawr 2012. Cytundeb partneriaeth ar y cwricwlwm i'w gynnig erbyn Rhagfyr 2011. Parhau i ddatblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy cynaliadwy.</i></p>	

<p>3.5 Casglu, dadansoddi a defnyddio data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 oed Cynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 o fewn partneriaethau.</p>	<p><i>Mae'r holl ddarparwyr dysgu a'r ALI yn cael eu cynrychioli ar Rwydwaith 14-19 ac Is-grŵp Addysg Gymraeg 14-19. Pennaeth YMG sy'n ei gadeirio ac mae'n cynrychioli'r Rhwydwaith ar y Fforwm Rhanbarthol.</i></p> <p><i>Ceir cymorth ar gyfer addysg Gymraeg drwy'r CDRhB ac mae Pennaeth YMG yn aelod o Grŵp Datblygu'r CDRhB.</i></p> <p><i>Mae'r Is-grŵp Addysg Gymraeg 14-19 yn dod ag YMG, yr ALI, Coleg Glannau Dyfrdwy, dysgu'n seiliedig ar waith a CWNE at ei gilydd i sicrhau ein bod yn cael darlun cyflawn o addysg Gymraeg yn yr Awdurdod.</i></p>	<p><i>Parhau i ddatblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy cynaliadwy.</i></p>	
--	---	--	--

Deilliant 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg (Gweler atodiad 4)			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Amserlen ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol	Ch. Adroddiad cynnydd
5.1 Gwella darpariaeth i fynd i'r afael â sgiliau llythrennedd Cymraeg.	<p><i>Mae cymorth ar gyfer datblygu wedi cynnwys y canlynol:-</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Rhaglen ymyrryd 'Dyfal Donc'</i> • <i>Archwiliad o brofion darllen sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion cyfrwng Cymraeg.</i> • <i>Sefydlu fforwm rhanbarthol (Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy) i archwilio anghenion cymorth adrannau'r Gymraeg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.</i> 	<p><i>Mae angen diffinio rolau a chyfrifoldebau swyddog sy'n gweithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn glir. (Gwanwyn 2012).</i></p> <p><i>Ar y cyd â datblygu Gwasanaeth Gwella Ysgolion Gogledd Cymru, sicrhau bod swyddog iaith Gymraeg uwchradd yn cael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar herio a chefnogi er mwyn codi safonau (Gwanwyn/Haf 2012).</i></p> <p><i>Fforwm ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i</i></p>	

		<p><i>ddatblygu cynllun gweithredu yn dilyn eu harchwiliad o anghenion o ran llythrennedd Cymraeg. (Gwanwyn / Haf 2012).</i></p> <p><i>Rhoi profion darllen Cymraeg cytûn ar waith yn unol â chynigion Llywodraeth Cymru. (2013).</i></p>	
<p>5.2 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.</p>	<p><i>Ni fydd adroddiad ar ganran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg hyd at 2012.</i></p> <p><i>Dengys data Cyfnod Allweddol 1 ar gyfer 2011 fod 92.6% o ddysgwyr wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch.</i></p> <p><i>Yn 2011, fe wnaeth 77.9% o ddysgwyr ym mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gyrraedd o leiaf lefel 4 mewn asesiadau gan athrawon yn y Gymraeg.</i></p> <p><i>Dyma ostyngiad o gymharu â chyrhaeddiad yn 2009/2010 oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr uned adnoddau mewn un ysgol.</i></p>		

	<p><i>Yn 2011 llwyddodd 78.7% o ddysgwyr YMG i gyrraedd Lefel 5 o leiaf yn y Gymraeg mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.</i></p> <p><i>Yn 2011 llwyddodd 72.2% o ddysgwyr YMG i gyrraedd graddau A*-C yn TGAU Cymraeg iaith gyntaf .</i></p> <p><i>I wella cyrhaeddiad, mae data wedi nodi bod angen gwella agwedd ysgrifennu ym mherfformiad disgyblion. Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant mewn swydd yn canolbwyntio ar yr agwedd hon a bydd effaith hyn yn cael ei monitro</i></p>	<p><i>Bydd penaethiaid yn dadansoddi data o asesiadau'r dyfodol a bydd swyddog yr ALL yn eu coladu er mwyn iddynt, ar y cyd, nodi a chynllunio cymorth a datblygiad proffesiynol y dyfodol. (Haf 2012).</i></p>	
<p>5.3 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p><i>Bydd pob Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnig profiadau cyrsiau preswyl mewn sefyllfa Gymraeg ei hiaith. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ym mhob ysgol.</i></p> <p><i>Mae dysgwyr YMG yn elwa oddi wrth weithgareddau wedi'u trefnu gan Swyddog Datblygu'r Urdd Fflint a Wrecsam a hefyd Swyddog Fflic Menter Iaith i ddatblygu defnydd anffurfiol o'r iaith Gymraeg megis ymweliadau i barciau themâu, canolfannau'r Urdd a chanolfannau teledu. Mae rhaglen radio BBC yn cynnal gweithdai gyda dysgwyr CA4.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <i>Parhau i gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell dosbarth</i> 	

	<p><i>Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn eisteddfodau ysgol, Urdd a chenedlaethol.</i></p> <p><i>Mae Swyddog Datblygu'r Urdd a Swyddog fflic Menter Iaith yn cynnal sesiynau 'galw heibio' yn ystod oriau cinio yn YMG. Maent hefyd yn arwain yr aelwyd tu allan i oriau'r ysgol.</i></p> <p><i>Mae YMG wedi ymuno â chynllun peilot, a noddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i hyfforddi myfyrwyr hŷn i helpu gyda chyfleoedd allgyrsiol i ddysgwyr ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.</i></p> <p><i>Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi sefydlu Clwb Ieuencid ar gampws Llysfasi gyda chefnogaeth yr Urdd, ac mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol drwy'r Gymraeg.</i></p> <p><i>Mae Menter Iaith Sir y Fflint yn cynnig amryw o weithgareddau trwy'r Gymraeg i blant a phobl ifanc, gan gynnwys gweithdai e.e. creu gemwaith, ffilm, animeiddio, cerddoriaeth, chwaraeon a chelf. Maent wedi gweithio gyda phob ysgol Cymraeg o fewn y sir i gynnig profiadau tu fewn a thu allan i'r dosbarth er mwyn annog dysgwyr i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Maent wedi cynnal nifer o'r digwyddiadau yma o fewn yr ysgolion, ond hefyd cynigwyd cyfleoedd i wneud defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol trwy eu gweithgareddau a gwyliau cymunedol. Hefyd cynllunio o flaen llaw i sicrhau y cyfleoedd a ddaw trwy gynnal Eisteddfod yr Urdd yn Fflint.</i></p>		
--	--	--	--

<p>5.4 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail iaith.</p>	<p><i>Yn 2011 bydd i 45.5% o ddysgwyr gyrraedd lefel 4 + mewn asesiad athro/athrawes Cymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Bydd hyn yn gynnydd o 7.4% ar gyrraeddiad 2010.</i></p>	<p><i>Parhau i fonitro, herio a chefnogi er mwyn codi safonau ymhellach ac ymgorffori safoni a chymedroli asesiadau mewn ysgolion</i></p>	
	<p><i>Mae effaith Cynllun Peilot Safoni Clwstwr Cyfnod Allweddol 2/3 wedi bod yn gadarnhaol iawn e.e.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>• Fe wnaeth un aelod o'r tîm Athrawon Bro (AB) safoni'n genedlaethol yn ystod y cynllun peilot ar gyfer Cymraeg fel ail iaith</i> <i>• Darparwyd hyfforddiant mewn swydd i gydlynwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gan y Dirprwy Brif Safonwr yn Chwefror 2011</i> <i>• Sicrhaodd rheolwr y tîm AB (y safonwr) gysondeb ar draws y consortiwm drwy fynd i gyfarfodydd clwstwr CA2/CA3</i> <i>• Darparodd y tîm Athrawon Bro adnoddau i ysgolion cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod cyfleoedd digonol yn cael eu darparu i ddisgyblion gyrraedd lefelau 4 a 5</i> <i>• Paratowyd fformat ar gyfer trawsgyfeirio i glystyrau ei fabwysiadu os oeddent yn dymuno gwneud hynny.</i> 		
	<p><i>Llwyddodd 69.9% o ddysgwyr CA3 Sir y Fflint i gyrraedd Lefel 5 neu uwch yn 2011, sy'n cymharu â chyfartaledd o 64.6% ar gyfer Cymru gyfan ac mae'n gynnydd o 3.5% ar ddeilliannau 2010.</i></p>		

	Yn 2011, llwyddodd 10.4% o garfan B11 yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg i sicrhau graddau A* - C mewn Cymraeg ail iaith TGAU.		
	Yn 2011, llwyddodd 32.5% o garfan blwyddyn 11 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i gyflawni graddau A*-C yn y Cwrs Byr Cymraeg TGAU ail iaith. O ganlyniad, mae 46.28% o holl ddysgwyr Sir y Fflint yn ennill achrediad lefel 2 ar ddiwedd blwyddyn 11 yn 2011.		
	Yn 2011, dilynodd 68.3% o garfan B11 yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg Cwrs Byr Gymraeg TGAU. At ei gilydd, safodd 81% o garfan B11 yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg arholiad llawn neu fyr TGAU yn Gymraeg yn 2011.	Bwriedir gwneud y canlynol i wella TGAU Cymraeg ail iaith:- (a) annog ysgolion i gofrestru cynifer o ddysgwyr â phosibl i'w hachredu (b) annog gweithgareddau peilot achredu Cymraeg ail iaith trwy NVQ.	
5.5 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.	Datblygir defnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy :- <ul style="list-style-type: none"> Menter Iaith Sir y Fflint yn cynnig amryw o weithgareddau i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, er mwyn creu cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i wersi, a hefyd er mwyn codi hyder ieithyddol a chodi ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru. Er enghraifft, yn ystod 2010 gweithiodd Menter Iaith Sir y Fflint gyda dros 		

	<p>30 o ysgolion cyfrwng Saesneg ar weithgareddau fel sesiynau ymwybyddiaeth iaith, gŵyl ffilm Cymraeg a sesiynau stori Gymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Weithgareddau'r Urdd • Cyrsiau preswyl Glan Llyn • Strategaethau o fewn ysgolion megis 'Ditectif Cymraeg', clwb amser snac, ardaloedd chwarae rôl yn y Cyfnod Sylfaen a CA2, gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithgareddau dydd Gŵyl Dewi. 		
<p>5.6 Cynyddu cofrestrïadau Cymraeg Safon Uwch a Chymraeg Ail Iaith fel canran o gofrestrïadau TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.</p>	<p>Yn 2011 llwyddodd 3 o ddysgwyr Sir y Fflint i gwblhau cwrs Safon Uwch yn y Gymraeg (iaith gyntaf) a chwblhaodd 18 gwrs Cymraeg ail iaith.</p>		

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Amserlen ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol	D. Adroddiad cynnydd
6.1 Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cyfrwng Cymraeg.	<p><i>Nid oes cofnod bod archwiliad wedi digwydd. Mewn ymateb i hyn, mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant wedi dechrau archwiliad, Hydref 2011.</i></p> <p><i>Mae canlyniad archwiliad o'r Gwasanaeth Cynhwysiant wedi pennu diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr agweddau canlynol ar y gwasanaeth: Cymorth Ymddygiad, Y Synhwyrâu*, Asesiad Cynhwysiant Addysg, Seicoleg Addysg* ac Anabledd Integredig. (*Mae cytundebau lleol ar waith gydag ALLau cyfagos i gefnogi'r gofynion cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hyn). Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda staff a rheni'r ysgolion cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Mae cydweithio agos â'r bwrdd iechyd lleol wedi sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer anawsterau iaith a lleferydd. Mae angen cynnig hyfforddiant pellach ar gyfer pobl cymwys i fod yn weinyddesau/therapyddion i weithio gyda grwpiau ac unigolion o fewn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Mae gan Sir y Fflint adnodd cyffredinol ar gyfer disgyblion CA1/2 sydd ag ADY, sydd wedi'i leoli mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Adnodd ydyw ar gyfer pob maes o anhawster-boed gymhedrol, ddwys neu ddifrifol. Mae cyllid wedi cael ei ddirprwyo i'r ysgol</i></p>	Archwiliad - Chwefror 2012	

	<p><i>uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion CA3/4/5 sydd ag ADY.</i></p> <p><i>Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion CA4 ar gael drwy un o ganolfannau Portffolio Unedau Cyfeirio Disgyblion yr ALI.</i></p>		
	<p><i>Mae'r awdurdod yn gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau allanol i gael gwybodaeth am blant ag ADY sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yng nghanol adolygiad o'r holl ddarpariaeth ar gyfer ADY. Bydd yr holl adnoddau a gwasanaethau yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad, a bydd hyn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r swyddogion yn ymgynghori ag asiantaethau allanol, ysgolion, rhieni a disgyblion fel rhan o'r adolygiad.</i></p>	<p><i>Adolygiad i'w gwblhau erbyn Mawrth 2012.</i></p> <p><i>Cynlluniau darpariaeth newydd wedi eu sefydlu erbyn Gorffennaf 2012.</i></p>	
	<p><i>Nid oes dulliau ffurfiol ar waith ar gyfer hyn ar hyn o bryd.</i></p> <p><i>Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cydweithio'n agos â rhieni a swyddogion yr Awdurdod i godi ymwybyddiaeth o'r galw am ddarpariaeth laith Gymraeg ADY.</i></p> <p><i>Bydd rhan o'r adolygiad yn cynnwys datblygu dulliau o gasglu gwybodaeth gan rieni.</i></p>	<p><i>Ddatblygu dull ffurfiol o ymgynghori gyda rhieni ynglŷn â'r galw am ddarpariaeth laith Gymraeg ADY. (Gwanwyn 2012)</i></p> <p><i>Pennu rhaglen barhaus i sicrhau fod yr adborth yn dylanwadu ar adolygu/datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol (i gychwyn Haf 2012)</i></p>	

	<p><i>Mae Swyddogion Cynhwysiant Gogledd Cymru yn ystyried sut y gallent gydweithio ym mhob agwedd ar ADY. Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn rhan o'r gwaith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf trwy gyfrwng dwy iaith.</i></p>	<p><i>Mae Sir y Fflint yn cydweithredu â Siroedd Dinbych a Wrecsam ar hyn o bryd i ddatblygu Gwasanaeth Synhwyrol isranbarthol.</i></p> <p><i>Amserlen i'r ddwy fenter i'w penderfynu erbyn Gorffennaf 2012 yn dilyn ymgynghoriad/arweiniad oddi wrth CCAC Gogledd Cymru.</i></p> <p><i>Mae'r holl awdurdodau yn ystyried gwasanaeth rhanbarthol TGCh ar gyfer ADY.</i></p>	<p><i>Mae gan Sir y Fflint gytundeb â Sir Ddinbych ar gyfer Seicolegwyr Addysg ac Athrawon Synhwyrâu Cymraeg eu hiaith.</i></p>
--	---	---	---

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Amserlen ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol	D. Adroddiad cynnydd
7.1 Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.	<p><i>Nid oedd unrhyw swyddi addysgu gwag mewn ysgolion cynradd Cymraeg ddechrau mis Medi 2011.</i></p> <p><i>Er nad oedd unrhyw swyddi addysgu gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r nifer o ymgeiswyr sy'n cael eu denu drwy hysbysebion yn isel iawn o gymharu â'r niferoedd uchel o ymgeiswyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. (e.e. 10 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu ag 80+ o ymgeiswyr cyfrwng Saesneg)</i></p> <p><i>Mae penodi uwch reolwyr i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg hefyd yn broblemus o ran nifer isel yr ymgeiswyr.</i></p>	<p><i>Y nod yw denu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg cymwys.</i></p> <p><i>Hirdymor – cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Tymor byr – hyfforddiant DPP mewn ysgolion a rhwng ysgolion.</i></p> <p><i>Gweithio ar y cyd â chonsortia i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr.</i></p> <p><i>Archwiliad o siaradwyr Cymraeg sy'n addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Amser ar secondiad i siaradwyr y Gymraeg sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i arsylwi ar</i></p>	

		<p><i>athrawon cyfrwng Cymraeg a gweithio ochr yn ochr â hwy er mwyn annog trosglwyddo siaradwyr Cymraeg i'r sector cyfrwng Cymraeg. Dechrau yn 2012 a'i adolygu yn Chwefror 2013.</i></p>	
	<p><i>Roedd 1 swydd wag mewn ysgol uwchradd heb ei llenwi ddechrau Medi 2011. Swydd addysgu disgyblion mwy galluog a dawnus 0.6 oedd hon, ond mae wedi cael ei llenwi'n fewnol gan rywun nad yw'n arbenigwr.</i></p>	<p><i>Sicrhau bod athrawon cymwys ym mhob pwnc. Gallai hyn gynnwys strategaeth gan yr ALI i ddenu athrawon cyfrwng Cymraeg i Sir y Fflint a gwella delwedd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygiad mewnol drwy gyfrwng y rhaglen athrawon graddedig neu'r Rhaglen Sabothol a ddarperir yn genedlaethol. (Parhaus)</i></p> <p><i>Yr ALI i fonitro</i></p>	

	<p><i>Mis Medi eleni, roedd 1 ½ swydd heb eu llenwi (swyddi Pennaeth y Gymraeg a 0.36 rhan amser heb eu llenwi.) Mae'r rhain yn cael eu llenwi gan athro cyflenwi ac athro newydd gymhwys. Y broblem yn rhai o'r ysgolion uwchradd yw bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu gan athrawon nad ydynt yn rhai arbenigol, gan gynnwys, mewn un ysgol, o leiaf 1 athro nad yw'n gymwys ac athrawon sy'n siarad Cymraeg ond sydd wedi'u hyfforddi mewn disgyblaethau eraill e.e. Economeg y Cartref. Mewn rhai ysgolion, mae prinder dybryd o athrawon sy'n gymwys i addysgu'r Gymraeg ar gael... mewn ysgol ar y ffin yn benodol.</i></p>	<p><i>datblygiadau. (Bob tymor)</i></p> <p><i>Ar y cyd â datblygu Gwasanaeth Gwella Ysgolion Gogledd Cymru, sicrhau bod swyddog iaith Gymraeg uwchradd yn cael ei ddefnyddio a fydd yn gweithio i sicrhau bod athrawon Cymraeg fel ail iaith cymwys ar gael ac a fydd yn datblygu Cymraeg fel ail iaith ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. (Haf 2012).</i></p> <p><i>Gweithio mewn partneriaeth â'r colegau hyfforddiant cychwynnol athrawon i sicrhau datblygiad athrawon Cymraeg fel ail iaith ac annog Cynllun Sabothol y Gymraeg drwy gyfrwng hyfforddiant ymwybyddiaeth i Lywodraethwyr/</i></p>	
--	--	---	--

		<i>Penaethiaid. (Parhaus) Yr ALI i fonitro datblygiadau. (Bob tymor)</i>	
	<i>Mae pob swydd cynorthwydd dysgu'n llawn, ond ychydig sy'n ymgeisio amdanynt. Oherwydd nifer isel yr ymgeiswyr, mae eu gallu ieithyddol yn peri pryder. Mae angen denu ymgeiswyr sydd â sgiliau sylfaenol digonol. Mae cynorthwywyr dysgu yn fwy hyderus ar lafar yn y Gymraeg nag yn ysgrifenedig. Cyrsiau newydd e.e. 'Meithrin Iaith ar Gyfer Gweithwyr Meithrinfeydd/Blynyddoedd Cynnar' – Pam Evans Hughes, Cam Wrth Gam.</i>	<i>Darparu hyfforddiant i gynorthwywyr dosbarth i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg i gynorthwywyr dosbarth sy'n gweithio mewn addysg cyfrwng Cymraeg.</i>	
	<i>Nid oes prosesau penodol ar gyfer recriwtio, cadw a hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg; fodd bynnag mae ychydig o swyddogion ADY cyfrwng Cymraeg yn cefnogi darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ac mae uned ADY.</i>	<i>Dylai recriwtio staff ADY yn y dyfodol gynnwys gofyniad i fedru'r Gymraeg neu ymrwymiad i fynychu dosbarthiadau Cymraeg i ennill lefel resymol o ruglder.</i>	

	<p>Mae swyddogion Gwella Ysgolion yn gweithio'n agos gydag ysgolion er mwyn hybu cyrsiau Cymraeg a chyrsiau Sabothol er mwyn cynyddu arbenigedd athrawon.</p>	<p>Cynyddu hyfforddiant ymwybyddiaeth i Benaethiaid a Byrddau Llywodraethol sy'n hyrwyddo manteision siarad Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ac annog mwy i gymryd rhan yng Nghynllun Sabothol y Gymraeg ac mewn cyrsiau Cymraeg.</p>	
<p>7.2 Gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr. Gwella sgiliau methodoleg ymarferwyr</p>	<p>Mae archwiliad mewnol wedi'i gynnal (gan Athrawon Bro) o sgiliau ieithyddol athrawon Blwyddyn 6 (sy'n dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg). Amlygwyd y cryfderau a hefyd y meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Mae casgliadau'r archwiliad wedi cyfrannu at y rhaglen DPP bresennol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd archwiliad ffurfiol o sgiliau ieithyddol y gweithlu dysgu presennol.</p>	<p>Archwiliad o sgiliau ieithyddol yn holl ysgolion i'w gynnal. (Gwanwyn 2012)</p>	
	<p>Mae swyddogion Conwy, Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth i nodi anghenion hyfforddiant mewn swydd er mwyn cryfhau a gwneud y mwyaf o hyfforddiant ar y cyd a rhannu adnoddau ac arfer dda. Caiff hyn ei hysbysu trwy gyswllt swyddogion ag ysgolion unigol. Fodd bynnag, mae angen ymestyn cyfleoedd am hyfforddiant ar fethodoleg drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Bydd swyddog yr ALI yn dadansoddi data ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i nodi blaenoriaethau allweddol a chydweithio â Phenaethiaid</p>	

		<p><i>ysgolion cyfrwng Cymraeg a swyddogion rhanbarthol yr ALI i bennu blaenoriaethau hyfforddiant. (Gwanwyn 2012).</i></p>	
	<p><i>Mae cyfran o'r rhaglen DPP yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno ar y cyd â dau awdurdod cyfagos. Fodd bynnag, mae cyfraniad yr awdurdod wedi ei rwystro oherwydd absenoldeb swyddogion.</i></p>	<p><i>Sicrhau eglurhad o gyfrifoldebau a rôl y swyddogion yr ALI sydd â chyfrifoldeb am yr Iaith. Y swyddog i gyfarfod ag arweinydd HMS traws sirol/swyddog rhanbarthol i benderfynu ar raglen DPP (Gwanwyn/Haf 2012).</i></p>	
	<p><i>Nid yw'n berthnasol. Ar hyn o bryd nid oes un ysgol am newid categori ieithyddol.</i></p>		

	<p>Mae rheolwr Gwasanaeth yr Athrawon Bro yn monitro hyfforddiant ac effaith rhaglenni hyfforddiant ac yn gwerthuso data diwedd cyfnodau allweddol yn yr ysgolion cynradd i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu bwydo i'r cynlluniau strategol.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaeth Athrawon Bro a'r swyddog arweiniol ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir y Fflint i fynychu cyfarfodydd Consortiwm Gogledd-ddwyrain Cymru i flaenoriaethu:-</p> <ul style="list-style-type: none"> a) hyfforddiant lleol b) hyfforddiant ar draws awdurdodau c) cyrsiau preswyl (Glan Llyn) d) Ffurio gweithgorau i ymateb i fentrau presennol / cenedlaethol. <p>(Parhaus)</p>	
	<p>Mae darparwyr allanol, fel CBAC a Chynnal yn darparu rhaglenni hyfforddiant yn ôl y galw. Mae cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant traws awdurdod sy'n seiliedig ar anghenion mwy lleol ac i sicrhau bod safonau'n codi. Mae'r Athrawon Bro yn cyfathrebu ag ysgolion yn rheolaidd i sicrhau bod safonau'n codi.</p>	<p>Mae angen i'r rhaglen DPP ganolbwyntio'n glir ar y blaenoriaethau llythrennedd a nodwyd gan y pum ysgol gynradd</p>	

		cyfrwng Cymraeg e.e. ysgrifennu. (Gwanwyn 2012).	
	Mae'r ALI wedi bod yn hyrwyddo'r Cynllun Sabothol Cymraeg ar bob lefel. Isel fu nifer yr ymgeiswyr ar y cwrs Uwch (1), fodd bynnag mae 6 athro wedi ei derbyn ar y cwrs Sylfaen.	Parhau i hyrwyddo mewn cynadleddau i uwch reolwyr cynradd ac uwchradd, drwy hyfforddiant i lywodraethwyr ac ymweliadau swyddogion yr ALI ag ysgolion. Yr ALI i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth athrawon i hyrwyddo manteision y Cynllun Sabothol. (Parhaus)	

	<p><i>Bu 26% o ANG mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar gyrsiau a drefnwyd gan yr Athrawon Bro yn 2010/ 2011 ac yn 2011/2012 cododd hyn i 36%. Bu 50% o ANG mewn ysgolion Cymraeg ar gyrsiau a drefnwyd gan yr Athrawon Bro yn 2010/2011. Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer ANG sy'n dysgu mewn ysgolion Cymraeg ar gyfer 2011/2012 hyd yma.</i></p> <p><i>Nid oes unrhyw gyrsiau Cymraeg penodol fel rhan o / anwytho yn y sector Uwchradd / DPC</i></p>	<p><i>Hyfforddiant anwytho ANG rhanbarthol i gynnwys Datblygu'r Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg / Saesneg. (i gychwyn yn 2012)</i></p>	
<p>7.3 Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion</p>	<p><i>Mae cynorthwywyr dysgu yn gwirfoddoli i fynd ar gyrsiau Cymraeg. Cynhaliwyd sesiwn 'galw heibio' i gynorthwywyr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn 2010/1011 ar y cyd â thîm y Cyfnod Sylfaen. Daeth dros 100. Mae tîm yr Athrawon Bro ar gael i roi cymorth i ysgolion.</i></p>	<p><i>Bydd sesiynau galw heibio ar gael ar gyfer cynorthwywyr dysgu i wella eu hyder a'u gallu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i></p>	
	<p><i>Yn ystod 2010 2011 roedd 3 Cymuned Ddysgu Broffesiynol cynradd ac 1 uwchradd yn Sir y Fflint sy'n rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith). Bydd gwybodaeth am Gymunedau Dysgu Proffesiynol ar gael yn y gwanwyn 2012.</i></p> <p><i>Mae CDP yn cael ei benderfynu gan ysgolion yn dilyn eu hunan werthusiad.</i></p>	<p><i>I gynllunio a datblygu cefnogaeth i hybu CDP mewn methodoleg Cymraeg ail iaith a Chymraeg iaith gyntaf. (Haf 2012).</i></p>	

	<p><i>Ar lefel consortiwm ysgol, caiff gweithgareddau safoni a chymedroli eu cyflawni ar hyn o bryd a bydd y gwaith hwn yn parhau.</i></p> <p><i>Mae rhai elfennau o hyfforddiant hefyd yn cael eu cyflwyno ar lefel consortiwm ysgol gynradd er mwyn cefnogi addysgu'r Gymraeg a Chymraeg ail iaith.</i></p> <p><i>Mae partneriaethau traws awdurdod yn bodoli rhwng Conwy, Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint er mwyn cyflwyno hyfforddiant a mentrau eraill i sicrhau cydweithio effeithiol e.e. Cynhadledd ar Ddwyieithrwydd ar gyfer ysgolion uwchradd</i></p> <p><i>Mae hyfforddiant ar gyfer cyfrwng Cymraeg a Chymraeg ail iaith yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ar draws 3 lefel yr awdurdod. Mae prosiectau ar y cyd wedi cael eu cyflwyno'n draws sirol i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach e.e. sioe Fflic a Fflac i ysgolion cynradd.</i></p>	<p><i>Rhagwelir y bydd cynnydd mewn gweithio rhanbarthol gydag ysgolion cynradd dros y flwyddyn nesaf.</i></p> <p><i>Bydd rhoi hyfforddiant cynradd traws awdurdod ar waith yn parhau yn ôl yr arfaeth.</i></p> <p><i>Bydd hyfforddiant yn cael ei nodi a'i roi ar waith mewn Cymraeg mewn ail iaith uwchradd ac mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth.</i></p> <p><i>(O Fedi 2012 ymlaen)</i></p>	
	<p><i>Mae cynllun traws awdurdod ar waith i gyflwyno hyfforddiant mewn swydd ac agweddau eraill ar weithio traws awdurdod. Bydd hyn yn parhau i gael ei ddatblygu, ochr yn ochr â chynlluniau consortiwm rhanbarthol.</i></p>	<p><i>Cytunwyd mewn egwyddor ar gyfleoedd i gynyddu gwaith ar y cyd ar draws awdurdodau gogledd-ddwyrain Cymru i gefnogi'r iaith Gymraeg. Yn ystod Gwanwyn / Haf 2012 bydd</i></p>	

		<i>blaenoriaethau mewn cynlluniau strategol y Gymraeg mewn Addysg ALLau unigol yn cael eu rhannu. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau gogledd-ddwyrain Cymru i gynllunio a chyflwyno trefniadau gweithio ar y cyd.</i>	
--	--	--	--

DRAFT

Adran 3

Bydd yr agweddau a ganlyn yn allweddol i lwyddiant Cynllun y Gymraeg mewn Addysg:-

1. Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Caiff y Cynllun Strategol ei fonitro gan y Fforwm hwn. Ceir cylch gorchwyl y Fforwm yn Atodiad 4. Bydd y Fforwm yn cyfarfod bob tymor i drafod cynnydd y Cynllun.

2. Grant y Gymraeg mewn Addysg

Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, bydd y Grant Addysg yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae Sir y Fflint wedi ymrwmo i'r egwyddor o weithio'n rhanbarthol fel consortiwm ac, ymhen amser, disgwylir y bydd y grant yn cynnig ffoecs i ddatblygu strategaethau iaith Gymraeg.

3. Cydweithio'n rhanbarthol

Mae prif swyddogion gwella ysgolion Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wedi cytuno i fabwysiadu agwedd fwy cydweithredol tuag at roi Strategaeth Addysg Gymraeg ar waith. Y bwriad yw rhannu cynnwys Cynllun Strategol pob un o'r awdurdodau er mwyn amlygu'r cynlluniau hynny y gellir eu hyrwyddo, drwy'r grant, fel consortiwm.

Mae gwaith ar y gweill eisoes i archwilio anghenion adrannau Cymraeg ysgolion Cymraeg y gogledd-ddwyrain.

Hefyd, mae'r trafodaethau cychwynnol wedi amlygu'r datblygiadau a ganlyn yn y consortiwm:-

- a) cymorth i ddatblygu cynllun sabothol yn y Gymraeg a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
- b) datblygu sgiliau ymarferwyr drwy sefydlu Cymunedau Dysgu Proffesiynol i ymdrin â:-
 - dysgu Cymraeg;
 - gwella llythrennedd yn Gymraeg;
 - addysgu Cymraeg ail iaith;
 - addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg;

- caffael sgiliau iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
- y defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth
- pontio rhwng y cyfnodau allweddol

DRAFF

Atodiad 1

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Paragraffau 2.12-2.18 (Llywodraeth Cynielliad Cymru)

2.12 Felly, ffocws allweddol y Strategaeth yw cynorthwyo dysgwyr i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy addysg cyfrwng Cymraeg, o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Mewn lleoliadua cyfrwng Cymraeg, I blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn atgyfnerthu ac yn datblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg drwy amrywiaeth eang o brofiadau cwricwlaidd. I blant o gefndiroedd di-Gymraeg, sy'n dod i gysylltiad cychwynnol a phennaf â'r Gymraeg drwy'r ysgol, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ddwys hon drwy broses o drochi ieithyddol. Mae'r Strategaeth hefyd yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd rhai dysgwyr yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfnod ar ôl tair oed. Gall hyn ddigwydd drwy bwyntiau mynediad hwyrach (cyfleoedd trochi i hwyrddyfodiad). Mewn achosion eraill, mae'n bosibl bydd profiadau cychwynnol o ddysgu'r Gymraeg drwy'r Cyfnod Sylfaen, dros amser, yn rhoi'r sail a'r ysgogiad i blant drosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd saith oed.

2.13 Fel arfer bydd addysg cyfrwng Cymraeg rhwng tair neu bedair oed a thua saith oed yn golygu sicrhau darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Rhwng saith ac un ar ddeg oed (Cyfnod Allweddol 2 o'r cwricwlwm cenedlaethol), caiff sgiliau Saesneg eu datblygu hefyd drwy ddefnydd priodol o'r iaith fel pwnc a chyfrwng. Un o'r ystyriaethau allweddol yw natur y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dwyster y mewnbwn cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg dros amser. Derbynnir yn gyffredinol y dylai o leiaf tua 70% o amser y cwricwlwm fod drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i ddysgwyr feistrolï'r iaith yn ddigon cadarn i'w galluogi i'w defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn hyderus ac yn rhugl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr egwyddor ganolog hon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd. Mae *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg (LLywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)* yn ategu'r egwyddor hon.

2.14 Defnyddir y term ‘darpariaeth ddwyieithog’ i gyfeirio at amrywiaeth eang o leoliadau addysgu a dysgu lle y defnyddir y Gymraeg i raddau gwahanol wrth gyflwyno'r ddarpariaeth. Felly, gall ‘ysgolion dwyieithog’ gynnwys yr ysgolion hynny lle cyflwynir cyfran helaeth o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, yr ysgolion hynny lle ceir dwy ffrwd – ffrwd cyfrwng Cymraeg a ffrwd cyfrwng Saesneg – a addysgir ar wahân, a'r ysgolion hynny lle yr addysgir dim ond ychydig elfennau o'r cwricwlwm neu yr addysgir nifer fach yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn colegau addysg bellach yn benodol, gall darpariaeth ddwyieithog gyfeirio at sefyllfaoedd lle yr addysgir dosbarthiadau ar yr un pryd yn y ddwy iaith, neu lle mae cyrsiau yn cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg.

2.15 Bydd deilliannau ieithyddol y mathau gwahanol hyn o ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol. Os yw dysgwr o gefndir Cymraeg yn mynychu ysgol ddwyieithog, gall cwricwlwm cytbwys drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fod yn effeithiol o ran sicrhau rhuglder yn y ddwy iaith. Dyma'r achos mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, os nad yw sgiliau iaith dysgwyr yn y Gymraeg yn cael eu hatgyfnerthu gan y teulu neu'r gymuned, nid ydynt yn debygol o fod yn hollol rugl a hyderus yn y Gymraeg pan fyddant yn dysgu mewn lleoliad dwyieithog. Felly, nid yw darpariaeth ddwyieithog bob amser yn sicrhau bod unigolyn yn datblygu i fod yn siaradwr dwyieithog. Mae'n bwysig bod datblygiadau polisi yn cael eu cynllunio ar sail dealltwriaeth fanwl o'r amrywiaeth eang o ddeilliannau a gaiff dysgwyr drwy ddarpariaeth ddwyieithog. Dylai lleoliadau dwyieithog geisio darparu cymaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ag y bo angen er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y ddwy iaith.

2.16 Fodd bynnag, ni fydd pob rhiant am i'w blant gael addysg cyfrwng Cymraeg. Nod ychwanegol y Strategaeth hon yw sicrhau bod pob dysgwr a myfyriwr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith sy'n cyfoethogi eu profiad o fyw mewn gwlad ddwyieithog. Yn ôl adroddiadau arolygu Estyn, er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cyflwyno newidadau yn raddol ond yn bwrpasol i godi safonau mewn addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith. Mae'n rhaid i sgiliau iaith yn y Gymraeg gael eu dysgu'n fwy effeithiol, gam wrth gam drwy addysg statudol, er mwyn i ni allu codi lefelau cyflawniad a sgiliau pob dysgwr. Byddwn hefyd yn ymestyn ac yn gwella'r cyfleoedd i'r oedolion hynny sydd am ddysgu'r iaith a body n fwy rhugl yn yr iaith.

2.17 Nid yw'r broses o ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn annibynnol ar ei gilydd. Mae deilliannau dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn debyg mewn Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf, sy'n awgrymu bod y sector yn llwyddo i feithrin dwyieithrwydd naturiol. Dengys data asesu ar ddiwedd Blwyddyn 6 fod 98.5% o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd lefel yn y Saesneg yn 11 oed sydd yr un fath, neu'n dod o fewn un lefel â'u perfformiad yn y Gymraeg. Mae defnyddio mwy nag un iaith yn rhan arferol o fywydd bob dydd i blant a phobl ifanc ledled Ewrop a'r byd. Ceir enghreifftiau helaeth o systemau addysg a hyfforddiant sy'n llwyddo i integreiddio dwyieithrwydd neu amlieithrwydd yn eu darpariaeth. Mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o'r patrymau a'r modelau sydd ar gael mewn cymunedau eraill ac yn deall eu perthnasedd i'n sefyllfa benodol ni yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hon yn ystyried y cyd-destun amlieithog, rhyngwladol, a phwysigrwydd sicrhau safonau o ran dysgu Saesneg ac ieithoedd tramor modern yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â strategaeth ieithoedd tramor modern Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Sicrhau bod leithoedd yn Cyfrif*.

2.18 Mae'r manteision a ddaw yn sgil dwyieithrwydd wedi derbyn llawer o sylw. Mae'r rhain yn amrywio o fanteision uniongyrchol gallu defnyddio ieithoedd penodol (er enghraifft cyfathrebu ag aelodau'r teulu a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach, neu wella cyfleoedd gyrfa), i'r manteision mwy cyffredinol o hyrwyddo sgiliau gwybyddol, cynyddu chwimder meddyliol ac ehangu'r amrywiaeth o brofiadau diwylliannol a gaiff siaradwyr. Mae ymchwil yng Nghanaada yn datgelu bod dwyieithrwydd yn gwella gallu plant ac oedolion hŷn i ganolbwyntio ynghyd â'u rheolaeth wybyddol, ac yn 2007, amlygodd yr effaith mae dwyieithrwydd yn ei chael ar ohirio symptomau demensia rhag dechrau. Datgelodd canfyddiadau ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caeredin yn 2009 fod siaradwyr dwy iaith yn ei chael yn haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau, gan anwybyddu pethau a allay dorri are u traws. Felly, mae rhoi cyfleoedd i siaradwyr ddatblygu eu sgiliau dwyieithog drwy addysg yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i amrywiaeth eang o brofiadau cymdeithasol a diwylliannol.

Atodiad 3

(a) Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg

Blwyddyn	Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg	Cyfanswm y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg
2009	84	84	100%
2010	102	100	98%
2011	77	71	92.2%

(b) Nifer o 'dysgwyr' sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg i Ysgol Maes Garmon.

Blwyddyn	Nifer ym Mlwyddyn 7	Nifer y 'Dysgwyr'	Dysgwyr fel % o'r garfan
2009	95	20	21.1%
2010	107	18	16.8%
2011	111	13	11.7%

Atodiad 4a

ASESIAD ATHRO MEWN CYMRAEG AIL IAITH

DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 2

Blwyddyn	Cyfanswm bl. 6 - ysgolion prif ffrwd	Cyfanswm bl.6 - arbennig neu UCD	Cyfanswm y disgyblion blwyddyn 6 Mehefin 2011*	Cyfanswm a aseswyd ar gyfer Cymraeg Ail iaith	% y disgyblion a aseswyd	% yn cyrraedd Lf4+
2010	1633	11	1644	1326	100%	38.1%
2011	1571	11	1582	1363	100%	45.5%

Yn 2010 ac 2011 derbyniwyd 80.7% ac 86.2% o ganlyniadau i'r Sir (nid oedd yn ofyniad statudol)

DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 3

Blwyddyn	Cyfanswm bl. 9 - ysgolion prif ffrwd	Cyfanswm bl.9 - arbennig neu UCD	Cyfanswm y disgyblion blwyddyn 9 Mehefin 2011*	Cyfanswm a aseswyd ar gyfer Cymraeg Ail iaith	% y disgyblion a aseswyd	% yn cyrraedd Lf4+
2010	1671	22	1693	1688	99.7%	66.4%
2011	1668	15	1683	1679	99.8%	69.9%

*Cyfanswm y disgyblion blwyddyn 6 heb gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ond gan gynnwys Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio

Atodiad 4b

ASESIAD ATHRO MEWN CYMRAEG IAITH GYNTAF

Diwedd Cyfnod Allweddol 2

Blwyddyn	Cyfanswm a aseswyd bl 6	Cyfanswm yn Cyrraedd L4+	% Yn Cyrraedd L4+
2009	83	69	83.1%
2010	102	84	82.4%
2011	77	60	77.9%

Diwedd Cyfnod Allweddol 3

Blwyddyn	Cyfanswm a aseswyd bl9	Cyfanswm yn cyrraedd L5+	% Yn Cyrraedd L5+
2009	96	64	66.7%
2010	81	54	66.7%
2011	108	85	78.7%

Atodiad 5

Cylch Gorchwyl

Diben

Bydd y Fforwm yn cynllunio'n strategol, yn monitro ac yn gwerthuso Cynllun Strategol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg gan ymgynraedd at dargedau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn ei Strategaeth Addysg Gymraeg.

Cylch gwaith

Dyma gylch gwaith y grŵp a'i aelodau unigol: -

- Cytuno ar ddull cydlynol o gyflenwi gofynion Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn Sir y Fflint, rhoi'r dulliau hynny ar waith a'u hadolygu.
- Bod yn gyfrifol am gynllun gweithredu sy'n cynnwys saith canlyniad allweddol.
- Monitro, gwerthuso ac ystyried effaith y cynllun gweithredu ar godi safonau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.
- Disgwylir i gynrychiolwyr y fforwm ymgynghori â'u rhanddeiliaid cysylltiol perthnasol a rhoi adborth iddynt

Aelodaeth – yn cynnwys cynrychiolwyr canlynol

Menter Iaith
Mudiad Ysgol Meithrin
SYFFLAG
Swyddog Addysg – Cyfnod Sylfaen
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Athrawon Bro

Pennaeth Ysgol Uwchradd
Pennaeth Ysgol Gynradd
Prif Swyddog Sector Uwchradd
Gwasanaeth Cynhwysiant
Pennaeth Datblygiad ac Adnoddau
Prif Swyddog Sector Cynradd
Uwch Swyddog – Cynradd
Cynrychiolydd Llywodraethwyr
Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi
Pennaeth Gwasanaethau Ysgolion
Undebau
Cynrychiolydd Coleg
Aelodau'r Cyngor